# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Gorffennaf 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

5 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yng nghyswllt tudalen 20 Cylchlythyr Cyfarwyddyd Rhif 021/2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r ymgynghoriad ynghylch Ysgol Llwyngwril, Gwynedd, a wnaiff y Gweinidog ystyried y cyngor a roddwyd yn yr adroddiad ESTYN diweddaraf am yr ysgol. (WAQ56230)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ac ystyried yr ymgynghoriad ynghylch Ysgol Llwyngwril, Gwynedd, sut y bydd y Gweinidog yn gwirio ac yn dilysu bod yr wybodaeth a roddwyd iddynt gan yr awdurdod lleol yn dod o'r adroddiad ESTYN diweddaraf am yr ysgol. (WAQ56231)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Ni fyddai'n briodol i mi roi barn na sylwadau ar unrhyw ymarfer ymgynghori sy'n mynd rhagddo yng Ngwynedd. Pe byddai'r awdurdod lleol hwnnw yn cyhoeddi cynigion statudol i ad-drefnu ysgolion, gan gynnwys cau Ysgol Llwngwril, a phe byddai gwrthwynebiadau, byddai dyletswydd arnaf i benderfynu a ddylid cymeradwyo, gwrthod neu addasu'r cynigion hynny. Mae'n rhaid i mi gadw meddwl agored hyd nes y caiff cynigion eu cyflwyno i mi. Pan gaiff cynigion statudol eu cyhoeddi, rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno tystiolaeth o ymgynghori. Wrth wneud unrhyw benderfyniadau y mae'n ddyletswydd arnaf eu gwneud, rwy'n ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys p'un a ymgynghorwyd yn ddigonol ai peidio, a gwybodaeth o adroddiadau Estyn.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ceisiadau am gyllid a wnaethpwyd gan Gyngor Gwynedd i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w helpu gyda'u rhaglen ad-drefnu ysgolion. (WAQ56232)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y dylai ceisiadau am gyllid gan Gyngor Gwynedd ar gyfer eu helpu gyda'u rhaglen ad-drefnu ysgolion gyrraedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a beth yw'r dyddiad cau. (WAQ56233)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Anfonwyd llythyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at bob awdurdod lleol yng Nghymru ar 1af Ebrill 2010 yn nodi'r broses gyflwyno a'r terfynau amser ar gyfer gwneud ceisiadau ar gyfer y drydedd gyfran o gymorth arian cyfalaf. Y drydedd gyfran hon yw'r cylch olaf o arian cyfalaf sydd i'w ddosbarthu drwy drefniadau trawsnewidiol. Caiff cymorth grant Llywodraeth y Cynulliad ei ddyrannu drwy raglen newydd Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn y dyfodol.
Dyddiad cau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer derbyn ceisiadau oedd dydd Gwener 28ain Mai 2010. Cyflwynodd Cyngor Sir Gwynedd dri chynnig i'w hystyried. O'r cynigion hyn, dim ond un a gymeradwywyd mewn egwyddor i gael ei ariannu. Cyhoeddwyd pa brosiectau fyddai'n cael eu hariannu ar 14eg Gorffennaf 2010.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 28ain Mai 2010. Cyflwynwyd y ceisiadau gan Gyngor Sir Gwynedd o fewn yr amser hwn. Hefyd, cafodd pob awdurdod lleol ei wahodd i gyflwyno Rhaglenni Amlinellol Strategol i'w hystyried o dan Raglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain erbyn 29ain Hydref 2010.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei ystyried cyn penderfynu ynghylch a ddylid rhoi cyllid i awdurdodau lleol ai peidio er mwyn eu helpu gyda chynigion i ad-drefnu ysgolion. (WAQ56234)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ystyried yng nghyswllt cais awdurdod lleol Gwynedd am gyllid i'w helpu gyda'u cynigion i ad-drefnu ysgolion. (WAQ56235)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r meini prawf gofynnol ar gyfer awdurdodau lleol i ymgeisio am gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w helpu gyda'u rhaglenni ad-drefnu ysgolion. (WAQ56236)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Nodwyd y broses asesu ar gyfer ystyried ceisiadau i'w hariannu yn y llythyr i awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2010. Roedd y ffurflenni cais yn seiliedig ar egwyddorion Model Achos Busnes 5 Trysorlys EM. Roedd yn rhaid i gynigion ddangos achos cadarn dros fuddsoddi a dangos bod yr awdurdod lleol yn defnyddio dull strategol clir o weithio. Cafodd sut mae cynigion yr awdurdodau yn gweddu â'r agenda drawsnewid, strategaethau ad-drefnu ysgolion a darpariaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg eu hystyried yn ystod y broses asesu.
Fel gyda dyraniadau arian cyfalaf blaenorol, mae'r arian wedi'i dargedu at gefnogi prosiectau strategol mawr. Rhoddwyd blaenoriaeth i brosiectau a allai ddangos manteision posibl megis lleihad yn nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion a lleihad mewn costau rhedeg lle ceir problemau ôl-gronni mawr mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw a/neu leihad ym maint yr ystâd ysgolion. At hynny, caiff cynigion sy'n gallu dangos prosiectau sy'n cyrraedd safon Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif eu blaenoriaethu i'w hariannu. Mae hyn yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu ysgolion sy'n arloesol mewn perthynas â defnyddio technoleg i ddysgu, dylunio ac adeiladu.
Cafodd pob cais a gyflwynwyd gan Awdurdodau Lleol ei asesu yn erbyn yr un meini prawf.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar ddalgylch pob ysgol unigol mewn ardal awdurdod lleol (ee yng Ngwynedd - dalgylch y Gader) wrth ystyried ceisiadau am gyllid gan awdurdodau lleol ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion. (WAQ56237)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych ar ddalgylch pob ysgol unigol wrth ystyried y ceisiadau am arian gan awdurdodau lleol. Wrth ystyried ariannu ysgol newydd, caiff y cais ei gymeradwyo mewn egwyddor ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn cwblhau'r holl weithdrefnau statudol angenrheidiol. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw blaenoriaethu'r cynigion a gyflwynir i'w hariannu.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa mor hir y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl pwyso a mesur a yw cais am gyllid i helpu gydag ad-drefnu ysgolion yn dderbyniol ai peidio, a pha mor hir y byddai disgwyl i awdurdod lleol aros i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud unrhyw benderfyniad o'r fath. (WAQ56238)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Daeth pob cais ar gyfer y gyfran olaf o arian cyfalaf ysgolion i law erbyn y dyddiad cau, sef 28ain Mai 2010. Cwblhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y broses asesu a chafodd awdurdodau lleol wybod canlyniad y broses ar 14eg Gorffennaf 2010.

Caiff pob cynnig o arian ei wneud yn annibynnol ar unrhyw benderfyniadau y gallai fod yn rhaid i Weinidogion Cymru eu gwneud mewn cysylltiad ag unrhyw gynigion statudol ar gyfer ad-drefnu ysgolion, neu benderfyniadau ar unrhyw gymeradwyaethau eraill y gall fod eu hangen er mwyn i'r prosiect fynd rhagddo. Lle bo angen cynigion statudol ar gyfer ad-drefnu ysgolion a lle bo'r rhain wedi'u cwblhau, caiff arian ei gynnig ar yr amod y caiff gweithdrefnau statudol o'r fath eu rhoi ar waith yn ôl yr angen.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pan fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud penderfyniad yng nghyswllt cyllido awdurdodau lleol i'w helpu gyda'u cynigion i ad-drefnu ysgolion, ble caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi. (WAQ56239)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Caiff yr adroddiad ar y penderfyniad ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff rhestr lawn o'r prosiectau a gymeradwywyd hefyd ei chyhoeddi ar y wefan.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg o £500 mewn cyllid addysg fesul disgybl rhwng Cymru a Lloegr. (WAQ56240)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

There is a variation in funding levels between England and Wales when looked at on a per pupil basis. However, direct funding comparisons are misleading as the statistics for England and Wales include different elements of spend and are not made up in the same way. Devolution has made it possible for us to take forward a distinctive policy agenda in Wales which has been widely welcomed. We take decisions on the basis of what we believe is right for Wales, not by reference to developments in England.

However, the Welsh Assembly Government places a high priority on educational funding and the First Minister made a commitment in his manifesto to refocus educational investment to ensure that monies are well spent and are targeted to the front line. He also committed to increase spend on those front line services by 1% in comparison with the amount received in the Welsh block.

With this in mind I commissioned a review of the cost of administering the education system in Wales. All education spend including the allocation of funding to schools was within the scope of the review. The first phase of the review has been completed and a report was published on 18 May. The report identifies a range of opportunities for change and we are now seeking to implement the findings of the review to achieve a shift in funding across the education system from support to front line services. A project framework is being developed to provide the leadership and strategic direction needed to drive the changes required and inject momentum into the process.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ac ystyried bod awdurdod lleol Gwynedd wedi datgan bod 5 safle'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer adeiladu ysgol ardal yn Nalgylch Tywyn, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffaith nad oes dim cynigion cadarn ar gyfer safle newydd i ysgol er bod ymgynghoriadau yng nghyswllt cau ysgolion yn mynd rhagddynt yn yr ardal. (WAQ56241)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Mater i awdurdodau lleol yw cynnal ymgyngoriadau fel y gwelant yn briodol, ac mae'n rhaid iddynt ystyried canllawiau ar y mater hwn a gaiff eu cyhoeddi yng Nghylchlythyr 9/99. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw pennu pa ddewisiadau i'w cynnwys mewn unrhyw ymarfer ymgynghori.
Mater i awdurdodau lleol yw pennu faint i'w wario ar ymgynghori, a dylai unrhyw un sydd am gael gwybodaeth am y gwariant hwnnw wneud ymholiadau i'r awdurdod lleol perthnasol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ddatganiad diweddar Pennaeth Adran Addysg Gwynedd sef hyd yn oed petai eu cynnig presennol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn methu y byddai'n cyfarwyddo'r awdurdod lleol i dalu am gost ysgol newydd ar gyfer ardal Dysynni. (WAQ56242)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol unigol yw gwneud penderfyniadau ynghylch ariannu prosiectau cyfalaf, drwy ddefnyddio eu grantiau cyfalaf cyffredinol eu hunain nad ydynt wedi'u neilltuo; benthyca darbodus; cytundebau adran 106; neu dderbyniadau cyfalaf. Mae unrhyw grant a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ychwanegol at adnoddau cyfalaf yr awdurdodau eu hunain.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw asesiad y mae wedi'i wneud o faint mae Cyngor Gwynedd wedi gwario ar ymgynghoriadau ysgolion yng nghyswllt eu rhaglen ad-drefnu ysgolion, a ble caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi. (WAQ56245)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Mater i awdurdodau lleol yw cynnal ymgyngoriadau fel y gwelant yn briodol, ac mae'n rhaid iddynt ystyried canllawiau ar y mater hwn a gaiff eu cyhoeddi yng Nghylchlythyr 9/99. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw pennu pa ddewisiadau i'w cynnwys mewn unrhyw ymarfer ymgynghori.
Mater i awdurdodau lleol yw pennu faint i'w wario ar ymgynghori, a dylai unrhyw un sydd am gael gwybodaeth am y gwariant hwnnw wneud ymholiadau i'r awdurdod lleol perthnasol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw asesiad y mae wedi'i wneud o faint o arian y mae Cyngor Gwynedd yn disgwyl a arbedir o ganlyniad i'w rhaglen ad-drefnu ysgolion yn Nalgylch Tywyn, a ble caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi. (WAQ56247)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Mae Cyngor Sir Gwynedd yn amcangyfrif y bydd cynnig ariannu Tywyn yn darparu arbedion refeniw blynyddol o £220,000 yn ogystal ag arbedion o £33,000 mewn costau cynnal a chadw blynyddol. Hefyd caiff gwerth £344,000 o ôl-groniadau ar gyfer gwaith cynnal a chadw ei ddileu. Bydd lleihad o dros 200 yn nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi'r wybodaeth hon a gellir cael mwy o fanylion gan yr awdurdod lleol.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ac ystyried bod Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd wedi dweud bod digon o gyllid cyfalaf (£5.8m) i fwrw ymlaen â'r rhaglen ad-drefnu ysgolion yn Nalgylch Tywyn, pa ystyriaethau y bydd y Gweinidog yn eu rhoi yng nghyswllt gweddill dalgylch yr awdurdod lleol. (WAQ56249)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw amseriad y rhaglen ad-drefnu ysgolion yn y dalgylchoedd sy'n weddill a'r broses o'i hariannu.

Wrth i Lywodraeth Cynulliad Cymru baratoi i roi Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ar waith, gofynnwyd i bob awdurdod lleol gyflwyno Rhaglenni Amlinellol Strategol erbyn 29ain Hydref 2010 yn rhoi manylion eu cynlluniau strategol hirdymor ar gyfer buddsoddiad cyfalaf ysgolion i gefnogi eu cynlluniau ad-drefnu ysgolion. Yn y pen draw, cyfrifoldeb Gwynedd fydd pennu ei blaenoriaethau yn unol ag anghenion ac amgylchiadau lleol, a llunio strategaethau mewn perthynas â'r dalgylchoedd sy'n weddill i wella ysgolion a darparu canlyniadau llwyddiannus i blant a phobl ifanc.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Gan gyfeirio at ofynion Cylchlythyr 21/2009 Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt cau ysgolion a darpariaeth amgen, pa fanylion penodol o unrhyw drefniadau o ran cludiant ysgol y bydd y Gweinidog yn dymuno eu hystyried. (WAQ56243)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yng nghyswllt Cylchlythyr 21/2000 Llywodraeth Cynulliad Cymru, a wnaiff y Gweinidog ystyried cyflwr y ffyrdd y byddai plant yn cael eu cludo ar eu hyd, oed y plant dan sylw, a yw'r cludiant yn cael ei oruchwylio ai peidio (bysiau), ac a oes gwregys diogelwch ar bob sedd ar fws ai peidio mewn perthynas â chau ysgolion a darpariaeth amgen. (WAQ56244) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes** (**Leighton Andrews):** Every statutory proposal for school organisation is considered on its individual merits taking into account the factors set out in Welsh Assembly Government Circular 21/2009, the information provided by the promoter of the proposal, and matters raised by any objectors.

The relevant factors set out in relation to school transport require my consideration of the nature of journeys to alternative provision, and resulting journey times for pupils, (in particular whether primary pupils will have one way journeys in excess of 45 minutes or secondary school pupils journeys of over an hour) ; the provision of, and accessibility to, safe walking and cycling routes, public transport, and, where relevant, the home school transport arrangements proposed by those bringing forward proposals.

I would expect any school transport to be provided by local authorities specifically as a result of school organisation to be of an equivalent standard to other transport already provided, and for detailed arrangements to be made in the light of the condition of routes, age of pupils and any other relevant factors. In considering proposals, I would examine detailed matters such as those to which you refer if specific concerns were highlighted by those opposed to the proposals, but I would in any event expect local authorities to arrange school transport for pupils at all times in ways which gave a high priority to the safety and welfare of pupils as a matter of course.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o blant dan saith oed y mae awdurdod lleol Gwynedd yn eu cludo i'r ysgol ac yn ôl adref ar (a) bws mini, (b) tacsi ac (c) bws a beth yw'r ffigurau rhwng saith oed a naw oed a rhwng naw oed ac un ar ddeg oed. (WAQ56250)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon yn ganolog.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran gweithredu'r Cyfarwyddebau Datblygu Gwasanaeth ar gyfer Epilepsi yng Nghymru a sut y mae hyn yn gwella'r driniaeth a gaiff epileptigion yn sir Gaerfyrddin. (WAQ56229)

***Rhoddwyd ateb ar 23 Awst 2010***

Cyflwynwyd adroddiad ar gynnydd Byrddau Iechyd Lleol yn erbyn camau allweddol yn y Gyfarwyddeb Datblygu Gwasanaethau Epilepsi ym mis Medi 2009. Dangosodd hwn fod peth cynnydd da wedi'i wneud ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ond hefyd nodwyd meysydd y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt sy'n cael eu trin ar hyn o bryd. Rhaid i'r holl Fyrddau Iechyd Lleol roi'r Cyfarwyddebau ar waith yn llawn

erbyn diwedd y flwyddyn. Mae Arddangosydd Cenedlaethol Caerdydd wrthi'n cyflawni gwaith penodol ar epilepsi a chaiff canlyniadau'r gwaith hwn eu rhannu ledled Cymru yn ystod hydref 2010.